



COUNCIL OF EUROPE  
CONSEIL DE L'EUROPE

European Language Portfolio  
Portfolio européen des langues



## Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd: Canllaw i Athrawon – trydydd rhifyn

Portfolio Européen des Langues: modèle accrédité N° 70.2006  
European Language Portfolio: accredited model No. 70.2006  
Accordé à / Awarded to CILT, the National Centre for Languages

Ce modèle est conforme aux Principes et Lignes Directrices

COMITE DIRECTEUR DE L'EDUCATION –  
COMITE EUROPEEN DE VALIDATION

Mae'r model hwn yn cydymffurfio ag Egwyddorion a Chanllawiau cyffredin

Y PWYLLGOR LLYWIO AR GYFER ADDYSG –  
PWYLLGOR DILYSU EWROPEAIDD



## Cydnabyddiaethau

Hoffai CILT, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd, ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau gwerthfawr tuag at ddatblygu'r *Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd - fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc*.

### **Plant, athrawon ac ymgynghorwyr yn:**

AALL Richmond upon Thames, Llundain  
AALL Tower Hamlets, Llundain  
AALL Manceinion  
St Georges School, Southwold  
University College Junior School, Llundain  
AALL Gorllewin Sussex

Ysgolion ym Mhrosiect Arfer Da mewn Dysgu Ieithoedd yn Gynnar CILT/DfEE  
(Medi 1999 i Fawrth 2001)

### **Cyngor Ewrop**

Mae dogfennau canlynol Cyngor Ewrop ar gael ar wefan y Portffolio  
([www.culture2.coe.int/portfolio](http://www.culture2.coe.int/portfolio)):

*European Language Portfolio guide for teachers and teacher trainers*  
(David Little a Radka Perklov)

*European Language Portfolio: The intercultural component and learning how to learn*  
(David Little a Barbara Simpson)

*Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd*  
[www.culture2.coe.int/portfolio/documents\\_intro/common\\_framework.html](http://www.culture2.coe.int/portfolio/documents_intro/common_framework.html)

*Adnoddau yw'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd a'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd* i hyrwyddo polisi dysgu iaith Cyngor Ewrop. Gellir darganfod mwy o wybodaeth am waith Cyngor Ewrop i ddatblygu'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd ac i hyrwyddo ieithoedd a dealltwriaeth ryngddiwylliannol yn: [www.culture2.coe.int/portfolio](http://www.culture2.coe.int/portfolio) .

Gellir darganfod gwybodaeth am y Strategaeth Genedlaethol ar Ieithoedd yn Lloegr, yr 'Ysgol Ieithoedd' a Fframwaith Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Ieithoedd yn: [www.dfes.gov.uk/languages](http://www.dfes.gov.uk/languages).

Cynhyrchwyd y fersiwn Gymraeg gan CILT Cymru.



COUNCIL OF EUROPE    CONSEIL DE L'EUROPE

European Language Portfolio  
Portfolio européen des langues



**Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd: Canllaw i Athrawon – trydydd rhifyn**

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2001. Cyhoeddwyd y trydydd rhifyn gyntaf yn 2006 gan CILT, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd, 20 Bedfordbury, Llundain WC2N 4LB.

Hawlfraint © CILT, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd 2001, 2004, 2006

Testun gan Patricia McLagan

Mae cofnod catalog o'r llyfr hwn ar gael oddi wrth y Llyfrgell Brydeinig.

Tudalennau sy'n gallu cael eu llungopïo (20-21): mae archebu'r deunydd hawlfraint yma'n rhoi hawl i'r sefydliad sy'n archebu i lungopïo'r tudalennau cofnodi er eu defnydd eu hunain neu ar gyfer defnydd eu disgyblion o fewn y sefydliad sy'n archebu, heb unrhyw awdurdod penodol gan y cyhoeddwr. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran arall o'r cyhoeddiad hwn, ei gadw mewn system adferu, neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffordd neu drwy unrhyw ddull, boed yn electronig, mecanyddol, llungopïo, cofnodi neu fel arall heb ganiatâd yn gyntaf ar bapur gan CILT, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd neu o dan drwydded gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint Cyf , 90 Tottenham Court Toad, Llundain W1T 4LP.

Dyluniad cysyniadol gan Blue Sky Commercial Art

Cyhoeddwyd ym Mhrydain Fawr gan Modern Colour Solutions

Mae cyhoeddiadau CILT ar gael oddi wrth: **Central Books**, 99 Wallis Rd, Llundain E9 5LN. Rhif ffôn: 0845 458 9910.

Ffacs: 0845 458 9912.

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Beth yw'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd?</b> . . . . .	2
	Egwyddorion . . . . .	2
	<i>Fy Mhortffolio Ieithoedd</i> . . . . .	3
	Pwrpas y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd . . . . .	4
<b>2</b>	<b>Cynnwys y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd</b> . . . . .	6
	Fy Mywgraffiad Iaith . . . . .	6
	Fy Ffeil . . . . .	8
	Fy Mhasbort Iaith . . . . .	10
<b>3</b>	<b>Defnyddio'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn yr ystafell ddosbarth</b> . . . .	12
	Gwneud amser ar gyfer y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd . . . . .	12
	Datblygu strategaethau dysgu iaith . . . . .	13
	Gweithgareddau . . . . .	14
	Datblygu dealltwriaeth a chyswllt rhyngddiwyllynnol . . . . .	14
<b>4</b>	<b>Y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd tu hwnt i'r ystafell ddosbarth</b> . . . . .	16
	Rhannu syniadau a phrofiadau gyda chydweithwyr . . . . .	16
	Gwybodaeth ar gyfer rhieni . . . . .	17
	<b>Atodiad</b>	
	Lefelau a disgrifyddion y Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin . . . . .	20

# 1 Beth yw'r *Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd*?

Dogfen yw'r *Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd* lle mae'r rheini sydd yn dysgu neu wedi dysgu iaith – un ai yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol - yn gallu cofnodi eu profiadau dysgu ieithoedd a'u profiadau rhyngddiwylliannol.

Datblygwyd a phrofwyd y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd gan Adran Bolisi Iaith Cyngor Ewrop, Strasbourg, rhwng 1998 a'r flwyddyn 2000. Ym mis Hydref 2000, mabwysiadwyd Penderfyniad gan Gynhadledd Sefydlog Gweinidogion Addysg Cyngor Ewrop, yn argymhell gweithredu a defnyddio'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd.

Trefnodd CILT, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd, astudiaethau peilot o ddau fersiwn o'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd, y naill a ddyluniwyd ar gyfer pwrpasau galwedigaethol, a'r llall ar gyfer plant ysgol gynradd. Cyhoeddwyd fersiynau dilys o'r ddau Portffolio yn 2001. Diweddarwyd y ddau fersiwn yn 2006.

Cynhaliwyd lansiad y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd ar draws Ewrop yn 2001, y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd. Erbyn yn gynnar yn 2004, roedd 31 o blith 45 aelod-wladwriaeth Cyngor Ewrop, gan gynnwys pob un o'r rhai mwy, wedi'u hymrwymo rhywsut, i ddatblygu, profi neu weithredu Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd ar gyfer dysgwyr o bob oedran, o'r rhai hynny yn yr ysgolion cynradd hyd at y rhai mewn addysg alwedigaethol a phrifysgolion.

## Egwyddorion

Cytunwyd ar gyfres o egwyddorion a chanllawiau cyffredin ar gyfer pob Portffolio. Dylai unrhyw fersiwn o'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd adlewyrchu'r egwyddorion hyn a chael ei ddilysu gan bwyllgor dilysu Cyngor Ewrop os ydyw am gario logo Cyngor Ewrop.

- Eiddo'r dysgwr yw'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd a gellir mynd ag ef o ysgol i ysgol, i'r coleg neu i'r gweithle.
- Gwerthfawrogi pob gallu, ni waeth ym mha gyd-destun y caiff ei feithrin, boed o fewn addysg ffurfiol neu y tu allan i'r system.
- Mae'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn annog dysgu gydol oes ac yn ysgogi dysgwyr i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain drwy ddarparu hunanwerthusiad ac asesiad.
- Mae'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn gysylltiedig â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (gweler tudalen 20).
- Mae holl fersiynau'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn cofnodi datblygiadau a chyflawniadau dysgwyr mewn ieithoedd ac yn cynnwys profiadau a chysylltiadau rhyngddiwylliannol a phersonol.

## Fy Mhortffolio Ieithoedd

Fersiwn o'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yw *Fy Mhortffolio Ieithoedd*, sydd wedi'i ddilysu ar gyfer ei ddefnyddio gan blant yn y DU. Mae'n cynnwys ffeil i blant gyda chanllaw i athrawon.

Mae'r canllaw diwygiedig yma i athrawon yn cymryd lle'r ail rifyn a gyhoeddwyd yn 2004.

Mae Fy Mhortffolio Ieithoedd:

- yn adnodd dysgu;
- yn ffordd o ddathlu profiadau dysgu iaith plant;
- yn gofnod agored o gyflawniadau plant mewn ieithoedd;
- yn ddogfen y gellir ei chadw gan y plentyn neu'r athro/athrawes;
- yn ffynhonnell o wybodaeth werthfawr i helpu symud ymlaen i'r dosbarth neu'r ysgol nesaf.

Nod *Fy Mhortffolio Ieithoedd* yw cyflwyno'r broses o ddysgu iaith i blant cynradd – proses sy'n parhau am byth. Mae'n helpu plant i:

- ddod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd a gwerth medru siarad gwahanol ieithoedd;
- werthfawrogi a hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol;
- edrych ar y ffyrdd maen nhw'n dysgu a'u gwerthuso;
- ddatblygu cyfrifoldeb am eu dysgu;
- gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth.

Mae'r *Portffolio* Ieithoedd Ewropeaidd yn adlewyrchu cynnwys Fframwaith Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Ieithoedd o 7-11 mlwydd oed. Yn ogystal, mae'r Portffolio yn cynnwys gridiau hunanasesu sy'n adlewyrchu system gydnabyddiaeth wirfoddol genedlaethol, yr Ysgol Ieithoedd. Mae'r system yma'n credydu cyflawniadau dysgu iaith ar bob lefel, ac yn galluogi plant ac athrawon i asesu cyflawniadau gan ddefnyddio datganiadau 'gallaf i' mewn sgiliau gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu. Caiff plant asesu eu hunain neu gael eu hasesu mewn un sgil yn unig mewn unrhyw iaith unigol.

Mae asesiad allanol gwirfoddol ar gael ar ddiwedd pob cam drwy Asset Languages.

### Portffolio Electronig

Mae plant yn gallu llenwi adran Pasbort Iaith y Portffolio'n electronig, drwy ymweld â [www.nacell.org.uk](http://www.nacell.org.uk) neu [www.ciltcymru.org.uk](http://www.ciltcymru.org.uk)

### Pa ieithoedd?

Mae *Fy Mhortffolio Ieithoedd* wedi'i gynllunio i ddathlu a chofnodi profiad plentyn mewn ieithoedd tramor neu ieithoedd cymunedol, ble bynnag y dysgwyd yr iaith.

# **Pwrpas y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd**

## **1 Adnodd dysgu**

Eiddo'r dysgwr yw'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd. Mae'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn helpu ymrwymo plant a'u gwneud nhw'n gyfrifol am eu dysgu. Drwy drafod a chyd-drafod amcanion, cynnwys a phrosesau eu gwaith yn rheolaidd, mae plant yn raddol yn dysgu cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu cynnydd. Mae'r Portffolio yn eu helpu nhw i ddatblygu dulliau mwy meddylgar o ddysgu iaith a datblygu strategaethau dysgu iaith sy'n eu helpu nhw i ddysgu'n annibynnol.

## **2 Adnodd asesu a chofnodi**

Mae'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn rhoi gwir deimlad o falchder a chyflawniad i blant, drwy ddarparu ffordd o ddangos eu gallu ieithyddol i eraill. Mae'r plant sy'n defnyddio'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd wedi bod yn falch o'r cyfle i gofnodi eu cyflawniadau wrth iddyn nhw wneud cynnydd.

Mae'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn cynnwys disgrifiad o amcanion a lefelau dysgu iaith sydd i'w cyflawni ac o ganlyniad, mae'n cefnogi'r athro neu athrawes a'r dysgwr. Mae wedi'i gynllunio i fod yn gofnod parhaol, sy'n cael ei ddiweddarau'n raddol. Drwy arweiniad gan eu hathrawon, mae plant yn cofnodi eu datblygiad dro ar ôl tro dros amser, nid yn unig ar ddiwedd y cwrs neu'r flwyddyn.

Mae plant yn gallu asesu eu datblygiad eu hunain drwy ddefnyddio camau'r 'Ysgol Ieithoedd'. Yn ogystal, maen nhw hefyd yn gallu hunanasesu drwy ddefnyddio'r lefelau a ddatblygwyd gan Gyngor Ewrop.

## Rhannu'r rhesymeg

Mae athrawon mewn dwy ysgol yn rhannu'r rhesymeg tu ôl i'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd gyda'u dysgwyr ifanc.

Yn ysgol A, dosbarthodd athro neu athrawes A y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn ystod wythnos gyntaf y tymor. Edrychodd yr athro/athrawes a'r disgyblion ar yr adran 'Fy Mywgraffiad Iaith'. Siaradon nhw am sut maen nhw'n dysgu ieithoedd a beth fyddan nhw'n wneud yn eu gwersi ieithoedd. Siaradodd y disgyblion hynny oedd â gwybodaeth o iaith arall am eu profiadau. Arweiniodd hyn at drafodaeth ddiddorol ynglyn â dulliau dysgu effeithiol a'r strategaethau rydym ni'n eu defnyddio, e.e. gwranddo, deall, cyfathrebu, meimio, cofio.

Gofynnodd yr athro/athrawes i'r plant ddisgrifio profiadau neu gysylltiadau eraill maen nhw wedi eu cael sy'n ymwneud ag ieithoedd, a gofynnodd iddyn nhw feddwl am yr hyn roedden nhw wedi'i ddysgu o'r profiadau yma. Eglurodd yr athro/athrawes y byddai disgyblion yn gallu cofnodi'r profiadau hyn yn y Portffolio.

Dywedodd yr athro/athrawes wrth y disgyblion y byddan nhw'n gallu defnyddio'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn rheolaidd drwy'r flwyddyn i'w helpu nhw i feddwl am sut roedd eu hieithoedd nhw'n gwella, sut roedden nhw'n dysgu ac i gofnodi eu datblygiad.

Yn ysgol B, rhoddodd yr athro/athrawes eu Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd i'r disgyblion ar ddechrau Tymor 1. Cyflwynodd yr athro/athrawes y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd i'r dosbarth a thrafododd gyda nhw sut y byddai'n cael ei ddefnyddio, gan bwysleisio mai nhw sy'n berchen ar y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd, er y byddai'r athro neu'r athrawes yn gallu ei gadw. Eglurodd yr athro/athrawes y byddan nhw'n gallu defnyddio'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd:

- i ddangos eu gwaith gorau;
- i ddangos beth maen nhw'n ei wybod i bobl eraill a beth maen nhw'n gallu ei wneud mewn ieithoedd;
- i gadw cofnod parhaol o'u gwaith a'u datblygiad;
- i'w helpu nhw i weld eu bod nhw'n datblygu;
- i ddangos i eraill pan maen nhw'n newid dosbarth neu ysgol.

Gofynnodd yr athro/athrawes i'r dosbarth lenwi rhannau o'r adran 'Pasbort' a 'Bywgraffiad' yn syth, gan ddweud wrthyn nhw y bydden nhw'n gallu cofnodi eu datblygiad yn raddol drwy'r flwyddyn. Wedyn, canolbwyntion nhw ar y tudalennau 'Ffeil', a siarad am y math o waith y bydden nhw'n ei wneud, beth y gallen nhw ei roi yn y 'Ffeil' a sut y bydden nhw'n ei ddiweddarau'n rheolaidd.

## 2 Cynnwys y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd

Mae gan *Fy Mhortffolio Ieithoedd* dair prif ran:

- Fy Mywgraffiad Iaith;
- Fy Ffeil;
- Fy Mhasbort Iaith.

### Fy Mywgraffiad Iaith (tudalennau 3–15)

Mae'r Bywgraffiad yn rhan o'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd sy'n newid yn gyson, a dylai plant ymweld ag ef a'i ddiweddarau'n rheolaidd, gan eu galluogi nhw i ystyried a chofnodi eu sgiliau ym mhob iaith. Mae'n gymorth cofnodi pa mor hir mae plant wedi bod yn dysgu neu wedi clywed iaith. Mae'n bosibl y bydd angen trafod â rhieni i gael gwybodaeth o'r fath.

Mae'r Bywgraffiad yn cynnwys datganiadau 'gallaf i' y mae disgyblion yn eu lliwio ac yn eu cwblhau wrth iddyn nhw ddatblygu, gan adeiladu dyddiadur dysgu personol.

Drwy gofnodi gweithgareddau yn y ffordd yma, mae plant yn dod yn ymwybodol o'r ffordd maen nhw'n datblygu ac am gynnwys ieithyddol y cwrs.

### Pryd i ddefnyddio'r Bywgraffiad Iaith

Mae'r disgyblion yn gallu gweithio gyda'r Bywgraffiad yn rheolaidd drwy gydol y cwrs. Er enghraifft, mae disgyblion:

- yn dechrau gweithio gyda'r Bywgraffiad Iaith ar ddechrau'r cwrs, gan gofnodi eu profiadau, edrych ar enghreifftiau o'r hyn y byddan nhw'n ei ddysgu a siarad am sut y byddan nhw'n gwneud hyn. Pan fydd disgyblion yn hyderus gydag un neu ddwy eitem benodol, gallan nhw liwio un neu ddau o'r swigod siarad i gofnodi eu bod nhw wedi'u dysgu. Wedyn gallan nhw edrych ymlaen at y targedau nesaf a meddwl am sut maen nhw'n mynd i'w dysgu nhw. Wedyn, gallan nhw edrych ar rai o'r tudalennau yn 'Yn Well ac yn Well' ar dudalennau 22-31 o'r Pasbort Iaith, a thicio lefelau yn y siartiau datblygu. Maen nhw'n ailadrodd eu hunanasesiad yn rheolaidd drwy gydol y cwrs.
- yn gweithio gyda'r adran Bywgraffiad yn rheolaidd drwy'r flwyddyn, nid ar ddiwedd y tymor yn unig, fel eu bod nhw'n ailadrodd y broses o edrych ar dargedau a hunanwerthuso yn rheolaidd. Mae hyn yn eu helpu nhw i ddeall y broses o ddysgu iaith ac i gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain.

## **Tudalennau Pellach**

Efallai y bydd angen i athrawon lungopïo neu lawrlwytho tudalennau ar gyfer ieithoedd gwahanol.

Pan fydd disgyblion wedi lliwio'r holl swigod sgwrs neu wedi cyrraedd lefelau uwch, ysgrifennwch fwy o ddatganiadau ar dudalennau gwahanol ac ychwanegwch nhw at y Portffolio. Dylai datganiadau eraill fod yn seiliedig ar gynnwys y cwrs a bod yn berthnasol i'r 'Ysgol Ieithoedd' (gweler tudalennau 22-30) a Fframwaith CA2 ar gyfer Ieithoedd.

### **Beth yw cynnwys y Bywgraffiad Iaith?**

*Fy nghynnydd i wrth ddysgu ieithoedd (tudalennau 9–15)*

Mae'r tudalennau hyn yn ffurfio dyddiadur dysgu personol, sy'n dangos targedau a chyflawniadau penodol ac sy'n galluogi plant i edrych ymlaen a bod yn ymwybodol o'r hyn y byddan nhw'n ei ddysgu.



Yr adrannau yw:

#### **1 Gwrando**

#### **2 Siarad**

Mae'r dudalen hon yn cofnodi disgyblion yn siarad ond nid yn sgwrsio, e.e. canu cân, gwneud cyflwyniad neu adrodd rhigwm.

#### **3 Siarad gyda rhywun<sup>1</sup>**

Mae'r dudalen hon yn cofnodi'r gallu i sgwrsio, h.y. gwrando ar rywun arall ac ymateb iddyn nhw.

#### **4 Darllen**

#### **5 Ysgrifennu**

#### **6 Dealltwriaeth ryngddiwyllynnol**

<sup>1</sup> Yn ogystal, gallai disgyblion gofnodi cyflawniadau mewn strategaethau dysgu iaith ar dudalen

## Fy Ffeil (tudalen 17)

Y Ffeil yw un o'r rhannau pwysicaf o'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd ar gyfer plant ifanc, gan mai casgliad personol ydyw o'u gwaith eu hunain.

Yn fan hyn, maen nhw'n ffeilio unrhyw ddarnau arbennig o waith, lluniau neu gofnodion sy'n dangos eu profiadau a'u cyflawniadau. Mae disgyblion yn falch o'u Ffeiliau ac yn dysgu cymryd cyfrifoldeb am yr hyn ddylai gael ei gynnwys, drwy dynnu allan ac ailosod gwaith wrth iddyn nhw ddatblygu.

Dylai athrawon helpu plant iau i arolygu eu ffeiliau yn rheolaidd, i werthuso'r cynnwys ac i ailosod deunyddiau blaenorol gyda gwaith gwell, mwy datblygedig.

Pan mae disgyblion yn gadael dosbarth, gallan nhw ddewis y darnau gorau o waith i ddangos i'w hathro/hathrawes newydd neu yn yr ysgol newydd, sy'n adlewyrchu'r lefelau maen nhw wedi'u cyrraedd.

### Pryd i ddefnyddio'r Ffeil

Bydd plant:

- yn dechrau gweithio gyda'r Ffeil ar ddechrau'r cwrs. Gan fod y Ffeil yn eiddo iddyn nhw, nhw sy'n penderfynu beth i'w roi ynddi;
- yn dewis gwaith arbennig sy'n dangos orau eu cyflawniadau a'u profiadau, e.e. mae disgyblion yn edrych yn ôl ar 'Fy Nghynnydd i wrth Ddysgu Ieithoedd' ac 'Yn Well ac yn Well' yn eu Pasbort Iaith ac yn dewis darnau o waith i ddangos i eraill eu bod nhw'n gwybod pethau penodol o'r rhestrau hynny;
- yn diweddarau'r Ffeil yn rheolaidd, gan dynnu allan unrhyw hen ddeunyddiau ac ad-drefnu'r Ffeil wrth iddyn nhw ddatblygu.


Wrth i'r Ffeil dyfu, mae disgyblion yn gallu ei rhannu yn adrannau gwahanol yn ôl sgiliau gwahanol, gan gynnwys deunyddiau rhyngddiwylliannol, neu ar sail tymhorau neu flwyddyn ysgol i ddangos sut maen nhw'n datblygu, er enghraifft:



caneuon a rhigymau rwyf yn eu gwybod




fy ffrind e-bost



fy lluniau a geiriau



cyfarfod â phobl



storiau rwyf i wedi'u clywed



storiau rwyf i wedi'u darllen

## Beth sy'n gwneud Ffeil dda?

Un nodwedd o unrhyw Ffeil iaith dda yw pa mor rhwydd mae rhywun sy'n edrych arni'n gallu darganfod beth mae plant yn ei wybod ac yn gallu ei wneud, a'i gysylltu'n ôl i'r lefelau a gofnodwyd yn y Bywgraffiad a'r Pasbort.

## Annog plant i feddwl am gynnig eu Ffeiliau

- Mae disgyblion yn trafod sut y dylai Ffeil dda edrych.
- Maen nhw'n meddwl am waith diweddar maen nhw wedi'i wneud a fyddai'n gallu dangos i bobl beth maen nhw wedi ei ddysgu a'r lefel maen nhw wedi ei chyrraedd, e.e. recordiadau ar dâp neu fideo, labeli, negeseuon e-bost, cofnod darllen, caneuon, darllen llyfrau.
- Mae disgyblion yn gwneud awgrymiadau ar y mathau gorau o waith i ddangos eu cyflawniadau.

### Syniadau ar gyfer deunyddiau y gallai plant eu rhoi mewn Ffeil

Mae gwaith y byddai plant yn hoffi'i gadw a'i ddangos yn cynnwys:

- cofnodion;
- negeseuon e-bost
- gwaith ysgrifenedig
- lluniau;
- cofnodion ar dâp neu fideo;
- disgrifiadau a chanlyniadau gwaith prosiect;
- copiâu o lythyrau neu negeseuon e-bost a anfonwyd i ysgol bartner;
- enghreifftiau o gemau neu ymarferion gwrando, siarad, darllen neu ysgrifennu;
- rhestr eirfa bersonol;
- cofnod darllen;
- poster;
- meddyliau ar ddulliau dysgu iaith.

## Dangos y Ffeil

Gallai athrawon glustnodi gwers gyfan i'r Ffeil yn rheolaidd, unwaith y mis neu ddwywaith y tymor. Mae disgyblion yn paratoi ar gyfer y wers drwy arolygu ac os oes angen, ad-drefnu'r deunydd yn eu Ffeil. Yn ystod y wers, mae disgyblion yn gweithio mewn paru, a chyflwyno eu Ffeil i'w gilydd ac egluro pa eitemau sydd fwyaf pwysig iddyn nhw a pham. Os oes amser, gallai paru ffurfio grwpiau a gallai pob grŵp ddarparu amlinelliad o'u Ffeil a'i gyflwyno i weddill y dosbarth.

## Fy Mhasbort Iaith (tudalennau 21-33)

Mae'r Pasbort yn darparu amlinelliad o'r ieithoedd y mae plentyn yn gallu eu siarad, neu yn eu dysgu. Mae'n trafod pethau sy'n gysylltiedig â'r cartref a'r ysgol ac mae'n ffordd o godi proffil a thynnu sylw at werth yr holl brofiadau dysgu iaith.

Gellir ei ddefnyddio i ysgogi dysgwyr ifanc ac efallai y byddai'n arbennig o werthfawr, ynghyd â'r adran 'Fy Ffeil', pan mae disgyblion yn symud o ysgol i ysgol neu pan mae athrawon yn newid.

Ar ddechrau eu cwrs, efallai mai dim ond profiad o ddwy iaith fydd gan y plant. Yn ystod y cwrs, mae'r Portffolio Iaith Ewropeaidd yn amlygu ac yn hyrwyddo'r amrywiaeth ieithyddol sy'n bodoli yn ein cymdeithas, y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol.

Cofnod yw'r Pasbort o brofiadau dysgu iaith disgyblion lle maen nhw'n cofnodi:

- ieithoedd maen nhw wedi'u clywed neu wedi eu dysgu adref; gan gynnwys mamiaith, pan nad yw hyn yn Gymraeg/Saesneg;
- yr ieithoedd a ddysgwyd yn yr ysgol;
- yr ieithoedd a ddysgwyd tu allan i'r ysgol;
- cysylltiadau a phrofiadau rhyngddiwyllynnol.

Mae tudalennau hunanasesiad y Pasbort yn cynnwys y canlynol:

- 1 Crynodeb o lefelau Cyngor Ewrop ar gyfer pob sgil - Gwranddo, Siarad a sgwrsio gyda rhywun, Darllen ac Ysgrifennu. Caiff y rhain eu dangos o dan benawdau Dechrau A1, Y Camau Cyntaf A2 Hanner Ffordd B1.
- 2 Dangosir naw gradd yr 'Ysgol Ieithoedd', y System Genedlaethol ar gyfer Cydnabod Ieithoedd yn Lloegr, o dan lefelau cyffredinol Cyngor Ewrop. Mae graddau'r 'Ysgol Ieithoedd' wedi'u grwpio fesul tri, gan nodi eu perthynas yn fras i lefelau A1, A2 a B1 Cyngor Ewrop.

Ni fydd y rhan fwyaf o'r plant sy'n dechrau astudio iaith newydd ym Mlwyddyn 3 yn cyrraedd Graddau 7, 8 a 9, ac mae hyn yn wir hefyd am y rhai hynny sydd efallai wedi bod yn dysgu iaith am gyfnod hirach neu mewn ffordd fwy dwys.

### Pryd i ddefnyddio'r Pasbort

Gellir llenwi rhai rhannau o'r dechrau. Wedyn, gall plant arolygu'r wybodaeth ac ychwanegu ato wrth iddyn nhw ddatblygu, e.e. ar ddiwedd pob tymor neu ar ddiwedd uned o waith.

### Pethau y gallwch chi eu hychwanegu at y Pasbort.

- Amlinelliad o'r cwrs neu ddeunyddiau'r cwrs.
- Tudalennau gwag lle mae disgyblion yn gallu llenwi mewn eu profiad o ieithoedd eraill
- Nodiadau am ymweliadau, teithiau, cyfnewidiadau a chysylltiadau gyda siaradwyr brodorol
- Gwaith trawsgwricwlaidd

Efallai yr hoffai athrawon roi amlinelliad o raglen dysgu iaith yr ysgol sy'n gysylltiedig ag amcanion dysgu Fframwaith Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Ieithoedd, a nodi strategaethau dysgu, strwythurau, gwaith rhyngddiwylliannol, pynciau a chyfeiriadau arbennig tuag at ddeunyddiau dysgu arbennig a ddefnyddiwyd. Dylai disgyblion gyfeirio at ba mor bell maen nhw wedi datblygu drwy unrhyw gwrs penodol.

Pan mae disgyblion yn dysgu mwy nag un iaith, gellir llungopïo neu lawrlwytho'r tudalennau hyn o wefan NACELL fel bod un tudalen ar gael ar gyfer pob iaith.

Ar dudalen 31, gall plant restru unrhyw gysylltiadau, prosiectau, ymweliadau, teithiau neu gyfnewidiadau sydd wedi'u helpu nhw i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth am ieithoedd a diwyllianau gwahanol.

### ***Yn well ac yn well! (tudalennau 22–31)***

Drwy ddefnyddio'r tudalennau hyn, mae disgyblion yn edrych ar yr hyn maen nhw wedi ei ddysgu ac yn gwerthuso eu dealltwriaeth a'u datblygiad iaith eu hunain. Mae'r ysgolion yn gweithredu fel crynodeb o'r ffordd maen nhw'n datblygu. Defnyddiwch nhw yn rheolaidd i ddiweddarau cyflawniadau ac i annog plant i edrych ar yr hyn maen nhw wedi ei ddysgu mewn sgiliau gwahanol.

Mae disgyblion yn gallu llenwi'r ffordd maen nhw'n dysgu ar y pedair ysgol ar gyfer:

- 1 Gwrando
- 2 Siarad a sgwrsio gyda rhywun
- 3 Darllen
- 4 Ysgrifennu

Mae'r datganiadau yn perthyn i'r 'Ysgol Ieithoedd' ac maen nhw'n berthnasol hefyd i'r lefelau a ddiffinnir gan Gyngor Ewrop yn y Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd:

A1 Dechrau, A2 Y Camau Cyntaf, B1 Hanner Ffordd, yn ogystal â lefelau Fframwaith Cenedlaethol CA2 ar gyfer Ieithoedd.

Er enghraifft:

- Rwyf yn gallu adnabod a darllen rhai geiriau ac ymadroddion syml
- Rwyf yn gallu ateb cwestiynau syml a rhoi gwybodaeth syml

Mae'r Pasbort hefyd yn cynnwys rhestrau gwirio hunanasesu ar gyfer lefelau Cyngor Ewrop o'r Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd, tudalennau 32-33. Mae disgyblion yn gallu asesu eu datblygiad drwy ddefnyddio'r lefelau hyn a'u nodi nhw ar dudalennau 23-30.

## 3 Defnyddio'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn yr ystafell ddosbarth

### Gwneud amser ar gyfer y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd

Gyda llawer o bwysau a gofynion gwahanol i ymdopi â nhw, efallai y bydd athrawon yn ei gweld yn anodd dod o hyd i'r amser i dreulio ar y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd, sydd yn gallu bod yn faich ychwanegol yn y tymor byr. I ddechrau, bydd yn angenrheidiol dod yn gyfarwydd â chynnwys a phwrpas y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd ac yna, egluro'r pethau angenrheidiol a'r rhesymeg i blant. Fodd bynnag, unwaith y bydd hyn wedi ei wneud, dylai'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd annog agwedd iachach tuag at ddysgu ieithoedd ymysg y plant. Wrth ddefnyddio'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd, bydd hyn yn cynyddu gallu disgyblion i fyfrio ac i hunanasesu, ac felly, yn eu galluogi nhw'n raddol i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu haddysg.

Gallai'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd weithredu fel rhan o ddysgu iaith a chael ei integreiddio i'r cwrs a'r deunyddiau dysgu.

Nid cofnod arall yw'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd ar gyfer cael ei ychwanegu at faich gweinyddol tymor hir yr athro/athrawes. Adnodd dysgu ydyw, sydd yn y bôn yn eiddo i'r disgybl, ond a gaiff ei ddefnyddio dan arweiniad yr athro/athrawes.

### Pa mor aml y dylen ni weithio gyda'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd?

Mae dwy agwedd i'r cwestiwn yma: yn gyntaf, pa mor aml y dylai disgyblion liwio, tynnu llun neu ysgrifennu yn eu Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd, ac yn ail, pa mor aml y dylai athro/athrawes dreulio amser dysgu gyda'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd fel adnodd dysgu, gan drafod y ffordd y mae disgyblion yn dysgu a'r hyn a ddysgwyd, gan osod targedau neu gael disgyblion i asesu eu hunain.

Er mwyn manteisio ar y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd, bydd angen i blant weithio gydag ef yn rheolaidd drwy'r flwyddyn, er mwyn iddyn nhw allu ystyried beth fyddan nhw'n ei ddysgu a'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu eisoes.

- O'r cychwyn cyntaf, mae disgyblion yn cwblhau rhannau o'r Bywgraffiad sy'n berthnasol i brofiadau ieithyddol a rhyngddiwyllynnol.
- 'Fy nghynnydd i wrth ddysgu ieithoedd': mae athrawon yn dewis sawl swigen neu ddatganiad 'gallaf i' tymor byr, ac yn canolbwyntio ar ddysgu'r rhain dros y gwersi nesaf, e.e. 'Rwyf yn gallu cyfrif o 1-10, 'Rwyf yn gallu enwi'r lliwiau'
- 'Rwyf yn gallu labelu pethau'.
- Mae disgyblion yn gallu gwerthuso'r ffordd maen nhw'n datblygu mewn parau neu gyda'r athro/athrawes. Gallan nhw liwio'r swigod ar ôl iddyn nhw gyflawni eu nodau a hefyd roi tystiolaeth o'u cyflawniadau yn y Ffeil. Wedyn, mae'r athro/athrawes a'r disgyblion yn gallu edrych ar y swigod 'gallaf i' nesaf a sefydlu targedau newydd.
- Y Pasbort ac 'Yn Well ac yn Well!': Gallai disgyblion wneud yr un fath gyda lefelau. Mae athrawon yn eu helpu nhw i feddwl am y gwaith maen nhw wedi bod yn ei wneud, sut maen nhw wedi bod yn dysgu a'r canlyniadau a gawsant. Mae disgyblion yn siarad am yr

hyn sydd angen ei ddysgu arnynt er mwyn cyflawni lefel arbennig. Wedyn, maen nhw'n penderfynu a ydyn nhw wedi cyflawni'r lefel yma. Gwnewch gymaint o weithgareddau ag sydd ei angen, mor aml ag sydd ei angen i gyflawni lefel arbennig. Wedyn, mae disgyblion yn gallu ticio'r lefel a gyflawnwyd yn y bocs priodol.

- Gallai'r rhan fwyaf o ddysgu iaith yn yr ystafell ddosbarth gael ei gysylltu â datganiadau 'gallaf i' sy'n darparu'r sail ar gyfer hunan-asesu disgyblion neu waith yn y Ffeil.

## **Datblygu strategaethau dysgu iaith**

Nod bwysig wrth ddysgu iaith yw cyfarwyddo disgyblion â strategaethau y gellid eu defnyddio wrth ddysgu unrhyw iaith.

Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu ac yn defnyddio ffyrdd effeithiol o:

- **gyfathrebu** - deall iaith lafar a chael eu deall;
- **ymarfer** iaith newydd;
- **coffio** geiriau, brawddegau, testunau a rheolau;
- **defnyddio** gwybodaeth flaenorol i greu iaith newydd

Gallai disgyblion fanteisio ar y strategaethau dysgu iaith effeithiol, a gafodd eu datblygu pan oedden nhw'n dysgu eu hiaith gyntaf, neu eu hail iaith mewn rhai achosion, a'u defnyddio nhw ar gyfer dysgu iaith newydd.

### **Sut mae athrawon yn gallu helpu i ddatblygu strategaethau dysgu iaith disgyblion?**

- Gadael i'r plant gymryd rôl yr athro/ athrawes yn yr ystafell ddosbarth. Wrth i ddisgyblion gymryd rôl yr athro/ athrawes, maen nhw'n dod yn fwy ymwybodol o'r dulliau o ddysgu sy'n eu siwtio nhw (ac eraill) orau.
- Tynnu sylw'r plant at y ffyrdd y maen nhw'n dysgu iaith a'u hannog nhw i restru ac aildefnyddio strategaethau llwyddiannus.
- Tynnu sylw at y ffaith fod gan unigolion dulliau dysgu gwahanol - efallai y bydd rhywbeth sy'n gweithio i un person ddim o reidrwydd yn gweithio i berson arall.
- Arbrofi drwy brofi dulliau dysgu gwahanol gyda'r dosbarth. Gallan nhw werthuso llwyddiant, er enghraifft, cyfathrebu gan ddefnyddio ystumiau; dulliau gwahanol o gofio geiriau a brawddegau drwy ddefnyddio rhythm, odl, dileu geiriau; deall drwy ddadansoddi ystumiau, gofyn i rywun ailadrodd rhywbeth neu siarad yn arafach.
- Adeiladu poster wal o strategaethau dysgu iaith effeithiol a chyfeirio atyn nhw'n aml.

### **Sut i helpu disgyblion i ystyried eu sgiliau a strategaethau dysgu**

- Gofyn i blant beth maen nhw eisiau ei ddysgu yn yr iaith newydd.. Mae hyn yn gwneud iddyn nhw edrych ar eu gwybodaeth flaenorol a'u hanghenion dysgu. Mae'n trosglwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb ar gyfer gwneud penderfyniad i'r plentyn mewn ffordd syml.

- Annog disgyblion i nodi neu i dynnu llun o'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu mewn rhestr o eiriau neu lyfr geirfa, er enghraifft, rhestrwch 'Nawr rwyf yn gallu siarad am ...', rhestrwch 'Fy ngeiriau newydd'. Mae hyn yn annog plant i feddwl am yr hyn a ddysgwyd ac ynganu eitemau newydd a ddysgwyd. Yn ogystal, mae'n helpu plant i ddatblygu strategaethau personol ar gyfer casglu a threfnu geiriau a brawddegau newydd.
- Gofynnwch gwestiynau i ddisgyblion yn rheolaidd am bethau fel hyn:
  - Beth wyt ti wedi ei wneud?
  - Pam?
  - A weithiodd e?
  - Sut wyt ti'n gwybod?
  - Oedd e'n anodd neu'n rhwydd?
  - Os yn anodd, beth fyddai'n ei wneud yn haws?
  - Beth wyt ti wedi'i ddysgu o'r weithgaredd hon?
  - Beth wyt ti wedi'i ddysgu am y ffordd rwyf ti'n dysgu a sut i'w gwneud yn fwy effeithiol?

## Gweithgareddau

Ar ôl ymarfer iaith drwy sgysiau a chwarae rôl, anogwch ddisgyblion i feddwl am ba lefel yn y siartiau 'Yn Well ac yn Well!' sy'n disgrifio orau beth maen nhw wedi bod yn ei wneud.

- Dewiswch ddatganiad o 'Yn Well ac yn Well!'. Mae gan ddisgyblion sy'n gweithio mewn grwpiau bum munud i feddwl am weithgaredd neu sefyllfa a fyddai'n dangos y datganiad a lefel gwybodaeth hynny. Wedyn, mae disgyblion yn cymharu gweithgareddau a sefyllfaoedd.
- Gofynnwch i ddisgyblion disgrifio beth hoffen nhw fedru ei wneud erbyn diwedd y tymor neu flwyddyn ac yna, gofynnwch i'r grŵp edrych ar 'Fy Nghynnydd i Wrth Ddysgu Ieithoedd' ac 'Yn Well ac yn Well' er mwyn darganfod datganiad addas. Trafodwch ffyrdd syml, pleserus o gyflawni'r gôl yma.

## Datblygu dealltwriaeth a chyswllt rhyngddiwyllynnol (tudalennau 6 and 31)

*Knowledge, awareness and understanding of the relationship (similarities and distinctive differences) between the 'world of origin' and the 'world of the target community' produce an intercultural awareness ... intercultural awareness includes an awareness of regional and social diversity in both worlds. It is also enriched by awareness of a wider range of cultures than those carried by the learner's L1 and L2 ... In addition to objective knowledge, intercultural awareness covers an awareness of how each community appears from the perspective of others, often in the form of national stereotypes.*

Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd

Mae'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn gallu helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ryngddiwyllynnol disgyblion. Mae cymhwyster iaith a dealltwriaeth ryngddiwyllynnol yn rhan angenrheidiol o fod yn ddinesydd. Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth well o'u bywydau eu hunain o ganlyniad i archwilio bywydau pobl eraill. Maen nhw'n dysgu edrych ar bethau o bersbectif arall, a chael golwg ar bobl, diwylliant a thraddodiadau diwyllianau eraill. Mae disgyblion yn dod yn fwy ymwybodol o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng pobl, eu bywydau pob dydd, eu credau a'u gwerthoedd. Mae dysgu iaith dramor yn dod â disgyblion i gysylltiad ag agweddau diwylliant gwledydd eraill. Efallai y bydd natur ymarferol cyrsiau ITM yn gwneud y cyswllt hwn hyd yn oed yn fwy real, un ai y tu mewn neu y tu allan i'r ysgol, ar ddiwrnodau arbennig neu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, drwy ddefnyddio'r Rhyngrwyd, e-bost, tripiâu ysgol dramor a chysylltiadau gydag ysgolion eraill.

Er mwyn dechrau datblygu ymwybyddiaeth, gofynnwch gwestiynau i ddisgyblion fel:

- Ble gallwch chi glywed neu weld enghreifftiau o'r iaith dramor y tu allan i'r ystafell ddosbarth? Er enghraifft, yn y cyfryngau, ar y Rhyngrwyd, ar gynhyrchion, ar ymweliadau, wrth gwrrd ag aelodau o gymunedau gwahanol.
- Ydych chi wedi cyfarfod neu weld pobl o wlad wahanol? Er enghraifft, ar y teledu, mewn person, ar wyliau.
- Beth wnaethoch chi ddysgu drwy gyfarfodydd o'r fath? Er enghraifft, ymwybyddiaeth o ddatliadau, o ieithoedd gwahanol, o agweddau daearyddol/cerddorol/crefyddol ac o ffactorau cymdeithasol.
- Sut y byddech chi'n gallu cofnodi rhai o'r profiadau hyn yn eich Portffolio?

Gall blant ddechrau gweithio gyda thaflen syml, e.e:

Profiadau iaith gartref a thramor .....

.....

Beth roeddwn i'n feddwl am hyn .....

.....

Cysylltiadau gyda siaradwyr ieithoedd eraill .....

.....

Ffilmiau, llyfrau, teledu .....

.....

Beth ydych chi wedi'i ddysgu amdanoch chi eich hun a'ch diwylliant chi eich hun?

.....

Gellir defnyddio copi o'r daflen dro ar ôl tro er mwyn datblygu ymwybyddiaeth ryngddiwyllynnol yn raddol dros amser.

## **4 Y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth**

### **Rhannu syniadau a phrofiadau gyda chydweithwyr**

Mae gweithio ar y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn helpu i ddatblygu dull ysgol-gyfan a chymunedol tuag at ddysgu iaith ac ymwybyddiaeth ryngddiwyllynnol. Gellir defnyddio'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn eich ysgol i gefnogi dysgu iaith dramor. Byddai'n fantais gwneud rhieni'n ymwybodol o'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd, ei bwrpas a'i fanteision. Gallai athrawon rannu profiadau o weithio gyda'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd gyda chydweithwyr eraill.

Ystyriwch y posibiliadau hyn:

- Cyfarfod yn rheolaidd gydag athrawon eraill yn eich ysgol neu ardal gyfagos sy'n defnyddio'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd.
- Darparu cyflwyniad ar y cyd ar y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd gyda chydweithiwr arall.
- Gwneud cyflwyniad i lywodraethwyr mewn cyfarfod staff, cyfarfod rhanbarthol ar gyfer athrawon neu gyfarfod rhieni.
- Darparu arddangosfa o waith disgyblion gyda'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd.
- Ysgrifennu am y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd ar gyfer bwletin eich ysgol, cylchgrawn allanol neu bapur newydd.

## Gwybodaeth ar gyfer rhieni

Beth yw'r *Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd*?

Dogfen bersonol sy'n gallu:

- dangos gallu rhywun mewn ieithoedd gwahanol a'u cysylltiadau gyda diwylliannau eraill;
- cynnig arweiniad i'r dysgwr wrth ddysgu iaith.

### Beth sydd yn y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd?

Mae tair prif ran mae eich plentyn yn gallu eu llenwi yn rheolaidd:

- 1 'Fy Mywgraffiad Iaith: dyddiadur dysgu personol, sy'n dangos cyflawniadau personol wrth ddysgu ieithoedd;
- 2 'Fy Ffeil': cofnod o waith plant gydag ieithoedd maen nhw'n gallu ychwanegu ato drwy gydol eu cwrs, a chadw gwaith mewn ffolder;
- 3 'Fy Mhasbort Iaith: adran ar gyrhaeddiad plant mewn sgiliau iaith gwahanol yw'r adran yma, ac mae'n dangos profiadau rhyngddiwylliannol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol;

Yn ogystal, mae adran o'r enw 'Yn Well ac yn Well!' ar gael, lle mae plant yn ticio datganiadau sy'n disgrifio beth maen nhw'n gallu ei wneud gydag ieithoedd.

### Ai ar gyfer plant yn unig mae'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd?

Mae Cyngor Ewrop wedi diffinio tri *Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd* ar gyfer tri chynnod gwahanol mewn bywyd, sef ysgol gynradd, ysgol uwchradd a bywyd fel oedolyn. Mae dau Portffolio wedi'u cyhoeddi a'u hachredu yn y DU ar hyn o bryd, un ar gyfer disgyblion ysgol gynradd ac un ar gyfer oedolion.

### Sut gallai fy mhentyn ddefnyddio'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd?

Gallai eich plentyn gofnodi pa mor dda mae ef neu hi yn gallu deall a chyfathrebu mewn ieithoedd eraill. Mae'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn gallu hysbysu eich plentyn am ei sgiliau iaith ef/ hi a'i helpu ef/ hi i asesu cynnydd.

### Sut gallai rhieni helpu?

Siaradwch gyda'ch plentyn am ddysgu ieithoedd. Edrychwch ar y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd gyda'ch gilydd a helpwch ef neu hi i gwblhau rhannau ohono, er enghraifft, yr adran am ddod ar draws ieithoedd eraill. Cynigiwch bethau y gallai plant eu hychwanegu at eu ffeil. Gofynnwch i blant ddangos eu sgiliau drwy ddysgu rhywfaint o'r iaith newydd i chi. Edrychwch ar y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd cyn cyfarfodydd gydag athrawon a thrafodwch ddatblygiad eich plentyn gyda'r athrawon drwy ddefnyddio gwybodaeth o'r Portffolio.

### Beth sy'n digwydd pan mae fy mhentyn yn newid dosbarth neu ysgol?

Mae'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd yn adnodd gwerthfawr ar gyfer pontio, gan ei fod yn dweud wrth yr athro/athrawes neu ysgol nesaf beth mae eich plentyn eisoes yn gallu ei wneud, ac felly yn helpu i osgoi ailadrodd gwaith yn ddiangen.

Gellir archebu fersiwn Saesneg y Portffolio Cynradd oddi wrth:

Central Books

99 Wallis Road

Llundain E9 5LN

Ffôn: 0845 458 9910

**[www.centralbooks.com](http://www.centralbooks.com)**

neu gellir ei lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **[www.nacell.org.uk](http://www.nacell.org.uk)** neu **[www.ciltcymru.org.uk](http://www.ciltcymru.org.uk)**

Am fwy o wybodaeth am y Portffolio, ewch i wefan Cyngor Ewrop yn:

**<http://culture2.coe.int/portfolio>**.

Am fwy o wybodaeth am ddysgu ieithoedd yn gynnar, ewch i wefan National Advisory Centre on Early Language Learning: **[www.nacell.org.uk](http://www.nacell.org.uk)** neu **[www.ciltcymru.org.uk](http://www.ciltcymru.org.uk)**

## **Atodiad**

## Lefelau a Disgrifyddion y Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin

Mae lefelau cyfeirio cyffredin Cyngor Ewrop yn angenrheidiol ar gyfer y Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd ac yn ffurfio sylfaen y rhestrau gwirio yn y Bywgraffiad Iaith

		A1	A2	B1
DEALL	Gwranddo	Rwyf yn gallu deall geiriau cyfarwydd ac ymadroddion syml amdanaf i fy hun, fy nheulu a phethau o fy nghwmpas pan mae pobl yn siarad yn araf ac yn glir	Rwyf yn gallu deall ymadroddion a geiriau a ddefnyddir yn aml mewn perthynas â materion personol bob dydd (e.e. gwybodaeth deuluol a phersonol syml iawn, siopa, ardal leol, cyflogaeth). Rwyf yn gallu deall y prif bwyntiau mewn negeseuon a chyhoeddiadau byr clir a syml.	Rwyf yn gallu deall prif bwyntiau sgwrs syml glir ar destunau cyfarwydd rwyf yn eu clywed yn aml yn y gwaith, yn ystod amser hamdden neu yn yr ysgol. Rwyf yn gallu deall prif bwyntiau llawer o raglenni radio neu deledu, ar faterion cyfoes neu bynciau sydd o ddiddordeb personol i mi, cyhyd â bod y sylwebaeth yn eithaf araf a chlr.
	Darllen	Rwyf yn gallu deall enwau a geiriau cyfarwydd, a brawddegau syml, er enghraifft ar hysbysebion a phosteri neu mewn catalogau.	Rwyf yn gallu darllen testunau byr, syml. Rwyf yn gallu darganfod gwybodaeth arbenigol mewn deunydd pob dydd syml fel hysbysebion, prosbectau, bwydlenni ac amserlenni ac rwyf yn gallu deall llythyrau personol syml.	Rwyf yn gallu deall testunau sy'n cynnwys iaith a ddefnyddir bob dydd yn bennaf neu iaith sy'n gysylltiedig â gwaith. Rwyf yn gallu deall disgrifiadau am ddigwyddiadau, teimladau a dymuniadau mewn llythyrau personol.
SIARAD	Sgwrsio gyda rhywun	Rwyf yn gallu cyfathrebu mewn ffordd syml cyn belled â bod y person arall yn barod i ailadrodd neu aralleirio pethau yn arafach a fy helpu i ffurfio beth rwyf yn trio ei ddweud. Rwyf yn gallu gofyn ac ateb cwestiynau syml mewn meysydd bob dydd neu ar bynciau cyfarwydd iawn.	Rwyf yn gallu cyfathrebu mewn tasgau syml, bob dydd lle mae angen cyfnewid gwybodaeth syml ac uniongyrchol ar bynciau a gweithgareddau. Rwyf yn gallu ymdopi â sgwrsiau cymdeithasol byr, er nad wyf yn gallu deall digon i barhau â'r sgwrs ar fy mhfen fy hun.	Rwyf yn gallu ymdopi â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi wrth deithio mewn ardal lle siaredir yr iaith. Rwyf yn gallu cymryd rhan mewn sgwrs heb ei pharatoi ar bynciau cyfarwydd, o ddiddordeb personol neu sy'n bwysig i fywyd bob dydd (e.e. teulu, diddordebau, gwaith, teithio a digwyddiadau cyfoes).
	Llefaru	Rwyf yn gallu defnyddio ymadroddion a brawddegau syml i ddisgrifio ble rwyf yn byw a'r bobl rwyf yn eu hadnabod.	Rwyf yn gallu defnyddio cyfres o ymadroddion a brawddegau syml i ddisgrifio fy nheulu a phobl eraill, amodau byw, fy nghefndir addysgol, a fy swydd bresennol neu ddiweddaraf.	Rwyf yn gallu cysylltu brawddegau mewn ffordd syml i ddisgrifio profiadau a digwyddiadau, fy mreuddwydion, gobeithion ac uchelgeisiau. Rwyf yn gallu rhoi esboniadau byr o'm safbwyntiau a'm cynlluniau, a chynnig rhesymau dros wneud neu gredu'r pethau hyn. Rwyf yn gallu adrodd stori neu blot llyfr neu ffilm a disgrifio fy ymateb.
YSGRIFENNU	Ysgrifennu	Rwyf yn gallu ysgrifennu cerdyn post byr, syml, er enghraifft yn anfon cyfarchion gwyliau. Rwyf yn gallu llenwi ffurflenni gyda manylion personol, er enghraifft, yn rhoi fy enw, fy nghenedl, a chyfeiriad ar gefn ffurflen gofrestru gwesty.	Rwyf yn gallu ysgrifennu nodiadau a negeseuon byr, syml sy'n gysylltiedig â materion pob dydd. Rwyf yn gallu ysgrifennu llythyr personol syml, er enghraifft yn diolch i rywun am rywbeth.	Rwyf yn gallu ysgrifennu testun syml gyda chysyllteiriau ar bynciau sydd yn gyfarwydd i mi neu sydd o ddiddordeb personol i mi. Rwyf yn gallu ysgrifennu llythyrau personol yn disgrifio profiadau ac argraffiadau.

B2	C1	C2
<p>Rwyf yn gallu deall sgwrs a darlithoedd hirach a hyd yn oed ddadleuon cymhleth, cyhyd â bod y pwnc yn eithaf cyfarwydd. Rwyf yn gallu deall y rhan fwyaf o newyddion teledu a rhaglenni materion cyfoes. Rwyf yn gallu deall y rhan fwyaf o ffilmiau mewn tafodiaith safonol.</p>	<p>Rwyf yn gallu deall sgwrs hirach hyd yn oed pan nad yw wedi'i strwythuro'n glir a phan nad yw'r berthynas rhwng y siaradwyr yn hollol amlwg. Rwyf yn gallu deall rhaglenni teledu a ffilmiau heb ormod o ymdrech.</p>	<p>Nid wyf yn cael unrhyw drafferth i ddeall unrhyw fath o iaith lafar, un ai'n fyw neu wedi'i darlledu, hyd yn oed pan gaiff ei dweud yn gyflym gan berson brodorol, cyn belled â bod gen i amser i ddod yn gyfarwydd â'r acen.</p>
<p>Rwyf yn gallu darllen erthyglau ac adroddiadau sy'n ymwneud â phroblemau cyfoes lle mae'r ysgrifenywyr yn mynegi agweddau neu safbwyntiau arbennig. Rwy'n gallu deall rhyddiaith lenyddol gyfoes.</p>	<p>Rwyf yn gallu deall testunau ffeithiol hir a chymhleth, a gwerthfawrogi gwahanol arddulliau. Rwyf yn gallu deall erthyglau arbenigol a chyfarwyddiadau technegol hirach, hyd yn oed pan nad ydyn nhw'n berthnasol i fy maes i.</p>	<p>Rwyf yn gallu darllen bron pob ffurf iaith ysgrifenedig yn rhwydd, gan gynnwys testunau haniaethol, strwythurol neu ieithyddol gymhleth er enghraifft canllawiau, erthyglau arbenigol a gweithiau llenyddol.</p>
<p>Rwyf yn gallu cyfathrebu yn eithaf rhugl a naturiol, sy'n gwneud sgwrs reolaidd gyda siaradwyr brodorol yn eithaf posib. Rwyf yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth o fewn cyd-destunau cyfarwydd, gan fynegi fy safbwyntiau a'u cynnal.</p>	<p>Rwyf yn gallu mynegi fy hun yn rhugl a naturiol heb chwilio'n ormodol am ymadroddion. Rwyf yn gallu defnyddio iaith yn hyblyg ac effeithiol ar gyfer pwrpasau cymdeithasol a phroffesiynol. Rwyf yn gallu ffurfio syniadau a barnau pendant a manwl a chysylltu fy nghyfraniad yn fedrus gyda chyfraniadau siaradwyr eraill.</p>	<p>Rwyf yn gallu cymryd rhan yn ddiraferth mewn unrhyw sgwrs neu drafodaeth ac rwyf yn gyfarwydd â brawddegau idiomatig ac ymadroddion tafodieithol. Rwyf yn gallu mynegi fy hun yn rhugl ac yn glir, gan gyfleu ystyr. Os oes gen i broblem, rwyf yn gallu cymryd cam yn ôl a delio â'r broblem mor rhwydd fel nad yw pobl eraill bron yn ymwybodol o hyn.</p>
<p>Rwyf yn gallu cyflwyno disgrifiadau clir a manwl ar ystod eang o bynciau sy'n gysylltiedig â fy niddordebau i. Rwyf yn gallu egluro safbwynt ar fater cyfoes a sôn am fanteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau.</p>	<p>Rwyf yn gallu cyflwyno disgrifiadau clir a manwl am bynciau cymhleth, gan gynnwys is-themâu, gan ddatblygu pwyntiau arbennig, a chan orffen gyda diweddgllo addas.</p>	<p>Rwyf yn gallu cyflwyno disgrifiad neu ddadl glir a rhugl mewn dull sy'n addas i'r cyd-destun a gyda strwythur effeithiol a rhesymegol sy'n helpu'r gwrandawr i sylwi a chofio pwyntiau arbennig.</p>
<p>Rwyf yn gallu ysgrifennu testun clir, manwl ar ystod eang o bynciau sy'n gysylltiedig â fy niddordebau. Rwyf yn gallu ysgrifennu traethawd neu adroddiad, sy'n rhoi gwybodaeth neu resymau o blaid neu yn erbyn safbwynt arbennig. Rwyf yn gallu ysgrifennu llythyrau sy'n amlinellu ystyr bersonol digwyddiadau a phrofiadau.</p>	<p>Rwyf yn gallu mynegi fy hun mewn testun clir, wedi'i strwythuro'n dda, a mynegi safbwyntiau. Rwyf yn gallu ysgrifennu am bynciau cymhleth mewn llythyr, traethawd neu adroddiad, a thanlinellu beth yr ystyriaf i fod y materion mwyaf pwysig. Rwyf yn gallu dewis dull sy'n addas i'r darlennydd mewn golwg.</p>	<p>Rwyf yn gallu ysgrifennu testun clir, sy'n llifo'n esmwyth mewn arddull addas. Rwyf yn gallu ysgrifennu llythyrau, adroddiadau neu erthyglau cymhleth sy'n cyflwyno achos, gyda strwythur effeithiol a rhesymegol sy'n helpu'r gwrandawr i sylwi ar, a chofio pwyntiau penodol. Rwyf yn gallu ysgrifennu crynodebau ac arolygon o waith proffesiynol a llenyddol.</p>



[www.ciltcymru.org.uk](http://www.ciltcymru.org.uk)

ISBN 1-904243-50-9



9 781904 243502 >